Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llawlyfr yr enwebai ar gyfer colegau annibynnol arbenigol

**o**

**Fedi 2019**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Rhan 1: Cyn yr arolygiad** **2**

Adran A: Rôl a chyfrifoldebau 2
Adran C: Hunanasesu 3
Adran D: Casglu tystiolaeth 4

**Rhan 2: Yn ystod yr arolygiad** **9**

Adran A: Rôl a chyfrifoldebau 9
Adran B: Taith trwy gyfnod yr arolygiad 9
Adran C: Dogfennau sydd eu hangen yn ystod yr arolygiad 10
Adran D: Prosesau sicrhau ansawdd yr arolygiaeth 12

**Rhan 3: Ar ôl yr arolygiad** **15**

**Rhan 4: Cwblhau'r canllaw adolygu ar-lein** **15**

**Atodiad 1: Taith trwy wythnos yr arolygiad** **16**

## Cyflwyniad

Mae'r llawlyfr hwn ar gyfer enwebeion. Bydd yr enwebai yn gynrychiolydd y coleg ac yn aelod o'r tîm arolygu yn ystod yr arolygiad. Datblygwyd y llawlyfr yn bennaf gydag anghenion uwch reolwyr mewn cof ac mae pwyslais cryf ar ddefnydd ymarferol. Mae'n ymateb i'r cwestiwn cyffredin – Beth mae'n rhaid i mi ei wybod i fod yn enwebai effeithiol? Bydd cymryd amser i ddarllen trwy'r llawlyfr yn rhoi i chi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i baratoi ar gyfer eich arolygiad, a deall pwysigrwydd y rôl fel enwebai'r coleg.

**Pwy ddylai fod yn enwebai?**

Mae'r enwebai'n chwarae rhan hanfodol mewn cynnal arolygiad. Mae'n hanfodol bod gan yr enwebai rôl uwch yn y sefydliad a dealltwriaeth dda o waith y darparwr. Mae'r arolygiaeth yn caniatáu am un enwebai yn unig fesul arolygiad.

Mae pedair rhan i lawlyfr yr enwebai:

**Rhan 1:** Cyn yr arolygiad
**Rhan 2:** Yn ystod yr arolygiad
**Rhan 3:** Ar ôl yr arolygiad
**Rhan 4:** Cwblhau'r canllaw adolygu ar-lein (bydd ar gael ar-lein ar ddyddiad i ddod)

Rydym yn gobeithio y byddwch yn gweld y llawlyfr yn addysgiadol ac, yn bennaf oll, yn hawdd ei ddefnyddio wrth baratoi ar gyfer eich arolygiad.

Mae Rhan 1 a Rhan 2 yn cynnwys y wybodaeth a'r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen ar wahanol adegau trwy gydol cyfnod yr arolygiad. Mae Rhan 3 yn ymdrin yn fras â rôl yr enwebai ar ôl yr arolygiad ac mae Rhan 4 yn esbonio'r canllaw adolygu ar-lein yn fanylach.

Bydd yn ddefnyddiol cael eich copi o arweiniad arolygu Estyn 2019 ar gyfer y sector i gyfeirio ato wrth i chi fynd trwy'r llawlyfr hwn. Mae'n hanfodol eich bod yn gyfarwydd ag arweiniad arolygu eich sector cyn yr arolygiad.

**Er mwyn bod yn enwebai mewn arolygiad, mae'n rhaid eich bod wedi darllen llawlyfr yr enwebai, cwblhau'r canllaw adolygu ar-lein a derbyn tystysgrif gyfredol ar gyfer cwblhau'r canllaw adolygu ar-lein.**

Cadwch y dystysgrif yn ddiogel oherwydd bydd yr arolygydd cofnodol (ACof) yn gofyn am gael ei gweld ar ddechrau'r arolygiad.

Nid yw'r ffaith eich bod, efallai, wedi mynychu hyfforddiant yn ystod y cylch arolygu diwethaf yn eich gwneud yn gymwys i fod yn enwebai mewn arolygiadau o Fedi 2019 ymlaen.

Bydd Rhan 4 y llawlyfr hwn yn esbonio sut y gallwch fynd at y canllaw adolygu ar-lein pan gewch hysbysiad gan Estyn o ddyddiad eich arolygiad. Ni ddylech gwblhau'r canllaw adolygu ar-lein hyd nes y cewch chi'r hysbysiad ffurfiol hwn o'r arolygiad.

# Rhan 1: Cyn yr arolygiad

Mae tair adran i'r rhan hon.

Bydd **Adran A** yn eich helpu i ymgyfarwyddo â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau.

Mae **Adran B** yn caniatáu i chi archwilio'n fyr yr agweddau allweddol ar hunanwerthuso effeithiol.

Mae **Adran C** yn darparu arweiniad ar gasglu tystiolaeth i'r tîm.

## Adran A: Rolau a chyfrifoldebau

Bydd yr adran hon yn esbonio'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel enwebai'r coleg.

Dylai'r adran hon eich galluogi chi i:

- gael dealltwriaeth dda o rôl yr enwebai
- gwybod a deall y protocol sy'n llywio gwaith yr enwebai

### Cefndir

Mae arolygiadau'n cynnig cyfle i gynnwys colegau'n weithgar yn y broses arolygu trwy alluogi enwebai o'r sefydliad i weithio gyda'r tîm arolygu. Mae presenoldeb enwebai yn helpu cryfhau'r bartneriaeth rhwng y tîm arolygu a'r coleg. Hefyd, mae'n rhoi cipolwg gwell i golegau i'r broses arolygu yn ogystal â darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Rydym yn gwahodd colegau i ddewis enwebai a fydd:

- yn sicrhau bod arolygwyr yn cael eu hysbysu'n llawn am gyd-destun gwaith y coleg
- yn cyfrannu at gyfarfodydd y tîm arolygu
- yn clywed y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan y tîm

### Yr enwebai

Fel enwebai, dylech fod yn aelod digon uchel o staff i weithredu fel cyswllt rhwng y coleg a'r tîm arolygu. Mae arolygwyr yn gwerthfawrogi rôl a chyfraniad yr enwebai yn fawr gan fod yr enwebai'n cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod yr arolygiad yn cael ei gynnal yn esmwyth.

Os bydd y coleg yn penderfynu peidio â nodi enwebai, bydd angen i'r arolygydd cofnodol (ACof) sefydlu hinsawdd o hyd ble mae'r coleg yn gwerthfawrogi'r arolygiad a chynnal perthynas waith dda â'r uwch staff.

Os bydd y coleg yn penderfynu peidio â manteisio ar y cynnig i gael enwebai, ni ddylai hyn niweidio'r arolygiad. Ni fydd y ffaith nad oes gan goleg enwebai yn cael unrhyw effaith ar y barnau sy'n cael eu llunio gan y tîm arolygu.

## Enwebai effeithiol

Mae rôl yr enwebai yn un heriol ac mae'n gofyn i chi arfer y gwrthrychedd sy'n hanfodol i broses arolygu allanol. Hefyd, bydd yn ofynnol i chi **barchu cyfrinachedd llym holl drafodaethau'r arolygiad**. Nid bod yn eiriolwr nac yn amddiffynnwr y coleg yw'ch rôl. Eich rôl yw helpu arolygwyr i gael at yr holl dystiolaeth y mae angen iddynt ei gweld, gwrando ar drafodaethau, deall rhesymu'r arolygwyr a chyfeirio arolygwyr at ragor o dystiolaeth, lle bo'i hangen.

Cyn yr arolygiad, dylech:

- ymgyfarwyddo â'r llawlyfr arweiniad arolygu ar gyfer yr arolygiad
- ymgyfarwyddo ag arweiniad Estyn ar rôl yr enwebai
- chwarae rhan allweddol ym mhrosesau hunanwerthuso'r coleg
- ymgyfarwyddo â dogfennau'r arolygiad
- mynychu pob cyfarfod tîm a gwybod am y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg, a ddarperir gan yr ACof yn union cyn yr arolygiad
- gwneud trefniadau gweinyddol priodol ar gyfer yr arolygiad
- coladu dogfennau a thystiolaeth y coleg sydd eu hangen ar gyfer yr arolygiad

Mae gan yr enwebai rôl benodol yn gwneud yn siŵr bod yr holl dystiolaeth i gefnogi hunanasesiad y darparwr ar gael yn hawdd. Os na fydd tystiolaeth ar gael, ni fydd amser gan y tîm arolygu i chwilio amdani. Bydd effeithiolrwydd yr enwebai wrth gyfeirio arolygwyr at dystiolaeth yn anochel yn cael effaith ar farnau'r tîm arolygu.

Gweler gwefan Estyn ar gyfer protocol a chytundeb yr enwebai.

## Crynodeb

Yn yr adran hon, rydych chi wedi darllen am eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel enwebai'r coleg. Bydd yn ddefnyddiol i chi nawr rannu'ch dealltwriaeth o'ch rôl gyda staff, uwch reolwyr, cyfarwyddwyr ac aelodau cyrff goruchwylio, fel ymddiriedolwyr, cyn yr arolygiad.

Hefyd, mae'n syniad da rhoi briff llawn i staff, uwch reolwyr, cyfarwyddwyr ac aelodau cyrff goruchwylio am newidiadau i'r prosesau arolygu yn gyffredinol.

## Adran B: Hunanasesu

Mae'r adran hon ar hunanasesu yn ailedrych ar yr hyn sy'n gwneud hunanasesu effeithiol a'i bwysigrwydd mewn trefniadau arolygu.

Y coleg sydd â'r cyfrifoldeb allweddol am godi safonau a gwella ansawdd ei ddarpariaeth, neu gynnal y rheiny ar lefel uchel. Hunanasesu sydd wrth wraidd y broses hon. Mae'n bwydo i gynllunio gwelliant, nodi nodweddion da a meysydd i'w datblygu, gosod targedau perfformiad a mesur cynnydd yn unol â nhw.

Er mwyn i hunanasesu fod yn gwbl effeithiol, mae angen iddo fod yn agored a gonest a chael ei ddeall yn llawn gan staff, rheolwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Bydd y coleg dan anfantais os yw'r tîm arolygu yn nodi rhywbeth nad yw'n ymddangos bod aelodau staff yn gwybod amdano, neu os nad yw

hunanasesiad y coleg yn adlewyrchu ei berfformiad presennol yn gywir. Bydd gan bob coleg feysydd y maent yn dymuno eu gwella neu'u datblygu – yr hyn sy'n bwysig yw pa brosesau sydd ar waith i nodi'r meysydd hyn a beth mae'r coleg yn ei wneud i fynd i'r afael â nhw? Dros gyfnod, dylai'r coleg adolygu pob agwedd ar ei fywyd a'i waith, ond dylai'r pwyslais allweddol bob amser fod ar y cynnydd a wna dysgwyr, y deilliannau y maent yn eu cyflawni, ac ansawdd darpariaeth y coleg a'i heffaith ar gynnydd a lles dysgwyr.

Mae'r cysylltiad rhwng hunanasesu a chynllunio'r coleg ar gyfer gwella yn hanfodol. Prin yw gwerth prosesau manwl a chynhwysfawr ar gyfer hunanasesu oni bai bod deilliannau hunanasesu yn cysylltu'n glir â thargedau gwella'r coleg.

Mae data o ansawdd uchel, yn feintiol ac yn ansoddol, yn hanfodol i sicrhau bod gan y darparwr y wybodaeth angenrheidiol i lunio barnau sicr am ei berfformiad ac i flaenoriaethu ei gamau gweithredu yn y dyfodol. Isod y mae'r meini prawf y dylech eu defnyddio wrth gasglu gwybodaeth i ategu'ch barnau hunanasesu. Dylai barnau hunanasesu fod:

- yn gadarn – yn seiliedig ar dystiolaeth ddigon cadarn, dibynadwy a hygyrch
- yn uniongyrchol – yn seiliedig ar arsylwadau uniongyrchol
- yn ddibynadwy – yn seiliedig ar feini prawf cyffredin, a ddeellir yn dda
- yn ddilys – yn adlewyrchu'n gywir yr hyn sy'n cael ei gyflawni a'i ddarparu
- yn rhydd o ragfarn – yn gwerthfawrogi cyfle cyfartal ac amrywiaeth
- yn gynhwysfawr – yn cwmpasu pob agwedd ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin
- yn gorfforaethol – yn adlewyrchu barn ar y cyd staff, rheolwyr a rhanddeiliaid eraill

Mae'r fframwaith arolygu'n rhoi pwys mawr ar hunanasesiad y coleg fel y man cychwyn ar gyfer arolygu. A chithau'n enwebai, gallech chwarae rhan allweddol mewn ysgrifennu adroddiad hunanasesu'r coleg. Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth yn ystod yr arolygiad i ddilysu barnau'r coleg ei hun. Os na fydd y dystiolaeth ar gael, gallai'r tîm benderfynu bod angen ymweliad dilynol rywbryd eto. Cyfeiriwch at fanylion am arolygiadau dilynol yn llawlyfr eich sector.

### Crynodeb

Yn yr adran hon, rydych chi wedi darllen am nodweddion allweddol a diben hunanasesu yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Os hoffech ddysgu mwy am hunanasesu, gweler yr arweiniad atodol ar hunanwerthuso ar wefan Estyn.

## Adran C: Casglu tystiolaeth

Bydd yr adran hon ar gasglu tystiolaeth ar gyfer arolygu yn eich galluogi i:

- ddeall sut mae arolygwyr yn barnu'r modd y caiff medrau dysgwyr eu cymhwyso
- deall sut mae arolygwyr yn nodi ac yn dilyn trywydd cwestiynau sy'n dod i'r amlwg
- gwybod am y mathau o ddogfennau y gallai arolygwyr ofyn amdanynt cyn y rhan o'r arolygiad ar safle

## Barnu'r modd y caiff medrau dysgwyr eu cymhwyso

Bydd y rhan hon o'r llawlyfr yn rhoi gwybodaeth i chi am y medrau y bydd arolygwyr yn eu barnu a'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiant i lunio'u barnau. Bydd yn eich helpu chi i wybod pa dystiolaeth y dylech ei darparu a sut bydd arolygwyr yn llunio'u barnau.

## Sut bydd arolygwyr yn barnu medrau dysgwyr?

Bydd arolygwyr yn adrodd ar safonau dysgwyr mewn llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a TGCh. Wrth arolygu medrau, bydd y ffocws ar ba mor dda mae dysgwyr yn defnyddio'u medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Lle y bônt ar gael, bydd arolygwyr yn ystyried canlyniadau asesiadau perthnasol eraill, fel asesiadau o allu darllen dysgwyr, wrth lunio barn am fedrau llythrennedd dysgwyr.

Bydd arolygwyr yn barnu safonau mewn medrau ar sail tystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o arsylwi dysgwyr mewn gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith dysgwyr a thrafodaethau gyda dysgwyr. Bydd arsylwi dysgwyr mewn gwersi yn ofalus a siarad â dysgwyr yn darparu tystiolaeth o'u medrau siarad a gwrando, eu medrau rhifedd a'u gallu i feddwl. Bydd craffu ar waith yn darparu tystiolaeth o ba mor dda y gall dysgwyr ysgrifennu'n glir a darllen er dealltwriaeth, pa mor dda y gallant ddefnyddio'u medrau rhifedd ar lefelau priodol mewn amrywiaeth o bynciau a ph'un a ydynt yn ennill ystod ddefnyddiol o fedrau a gwybodaeth mewn TGCh.

Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae lefel medrau cyfathrebu a meddwl dysgwyr yn cefnogi neu'n rhwystro'u cynnydd, mewn rhyngweithiadau yn yr ystafell ddosbarth â thiwtoriaid a dysgwyr eraill. Byddant yn ystyried pa mor dda mae dysgwyr yn datblygu'u creadigrwydd a'u medrau corfforol, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan, a pha mor fentrus ydyn nhw.

Lle y bo'n berthnasol, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu'u medrau echddygol manwl a bras, eu symudedd a'u medrau byw'n annibynnol. Dylent ystyried y graddau y mae dysgwyr yn datblygu'r medrau y mae arnynt eu hangen i'w paratoi at fywyd yn y dyfodol. Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae dysgwyr yn datblygu'u medrau cymdeithasol, gan gynnwys eu gallu i uniaethu â dysgwyr eraill, staff ac ymwelwyr â'r ysgol.

## Sut bydd arolygwyr yn casglu tystiolaeth?

Bydd y tîm arolygu yn cynnal teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Hefyd, byddant yn cynnal cyfweliadau â detholiad o ddysgwyr ac yn siarad â nhw am eu gwaith a'u hamser yn y coleg. Byddant yn craffu ar sampl o waith dysgwyr.

Bydd arolygwyr yn defnyddio'r amserlenni a ddarperir gan y coleg cyn yr arolygiad i nodi'r gwersi y byddant yn eu harsylwi a'r teithiau dysgu y byddant yn ymgymryd â nhw.

Ni fydd arolygwyr yn rhoi gwybod i staff am y gwersi y byddant yn eu harsylwi. Wrth arsylwi gwersi, bydd arolygwyr yn disgwyl gweld dysgwyr yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn ffyrdd sy'n briodol i'r wers. Nid oes disgwyl y dylai disgyblion fod yn defnyddio'r medrau hyn ym mhob gwers, yn fformiwläig.

Bydd arolygwyr yn ymwybodol bod gweithgareddau dysgu'n gallu gosod amrywiaeth o alwadau ar y modd y mae dysgwyr yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. O ganlyniad, mewn rhai gweithgareddau, gallai dysgwyr ddangos medrau ar lefel sylfaenol gan fod y gweithgarwch dysgu yn gofyn am y lefel honno o fedr yn unig. Hefyd, bydd arolygwyr yn gwybod na fydd pob pwnc yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio a datblygu'r holl fedrau hyn. Serch hynny, dylech chi a staff wneud yn siŵr bod arolygwyr yn gallu casglu'r dystiolaeth y bydd arnynt ei hangen i lunio barnau am ba mor dda y mae medrau dysgwyr yn caniatáu iddynt fanteisio ar y cwricwlwm.

**A fydd arolygwyr yn arsylwi rhaglenni cymorth, fel sesiynau medrau sylfaenol a sesiynau cymorth llythrennedd a rhifedd?**

Gallai arolygwyr hoelio cyfran o'u hamser ar arolygu'r cynnydd a wnaed gan ddysgwyr sy'n derbyn cymorth penodol i ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Bydd arsylwi'r dysgwyr hyn yn y dosbarth ac yn ystod teithiau dysgu yn rhoi tystiolaeth i arolygwyr o ba mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni mewn tasgau a gweithgareddau dysgu bob dydd.

**A fydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr?**

Dyma agwedd bwysig ar weithgarwch arolygu. Bydd pob arolygydd yn pennu safbwyntiau dysgwyr am ba mor dda y maent yn ei wneud o ran datblygu a chymhwyso'u medrau a byddant yn darganfod a yw dysgwyr yn gwybod faint o gynnydd a wnaethant a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Bydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr mewn arsylwadau ystafell ddosbarth ac yn ystod teithiau dysgu.

**A fydd arolygwyr yn craffu ar samplau o waith dysgwyr?**

Bydd arolygwyr yn craffu ar samplau o waith dysgwyr i fodloni anghenion y trywyddau ymholi a amlygwyd gan y tîm arolygu. Os bydd angen, bydd arolygwyr yn dweud wrthych pa samplau o waith dysgwyr y bydd arnynt eu hangen.

**Ymhle yn y Fframwaith Arolygu y bydd arolygwyr yn adrodd ar fedrau dysgwyr?**

Ym **Maes Arolygu 1 (Safonau)**, bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a oes gan bob dysgwr y medrau priodol mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh y mae eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan. Hefyd, byddant yn adrodd ar y graddau y mae dysgwyr yn ennill yr ystod ehangach o fedrau sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol, gan gynnwys creadigrwydd a medrau corfforol, medrau echddygol manwl a bras, a medrau byw'n annibynnol.

Ym **Maes Arolygu 3 (Addysgu a phrofiadau dysgu)**, bydd arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth ar gyfer medrau. Yn y farn gyffredinol ar addysgu a phrofiadau dysgu, bydd arolygwyr yn cyfrif am ba mor dda y mae addysgu a chynllunio'r cwricwlwm yn helpu i fodloni anghenion dysgwyr, gan gynnwys datblygiad eu medrau.

Ym **Maes Arolygu 5 (Arweinyddiaeth a rheolaeth)**, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn datblygu, yn cefnogi, yn monitro ac yn gwerthuso strategaethau a pholisïau'r coleg ar gyfer datblygu medrau dysgwyr.

## Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg

Bydd y rhan hon o'r adran yn rhoi gwybodaeth i chi am sut mae arolygwyr yn nodi ac yn dilyn trywydd cwestiynau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r llawlyfr arweiniad yn esbonio mai man cychwyn arolygu yw asesiad y coleg o'i berfformiad ei hun, wedi'i ategu gan wybodaeth berthnasol am berfformiad. Dylech wybod na fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar waith yn fanwl yn ystod arolygiad. Byddant yn samplu tystiolaeth i brofi barnau'r coleg ei hun am ei waith.

Yn ystod y cam cyn-arolygiad, bydd yr ACof yn llunio cwestiynau sy'n dod i'r amlwg ar ôl craffu ar yr adroddiad hunanasesu a gwybodaeth arall a ddarparwyd gan y coleg, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd eisoes gan yr arolygiaeth. Bydd yr ACof yn cynllunio'r arolygiad fel y gall y tîm fynd ar drywydd y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg sy'n benodol i'r coleg a chwmpasu gofynion y fframwaith arolygu cyffredin y bydd pob arolygiad yn mynd i'r afael â nhw.

Bydd yr ACof yn trefnu i rannu'r cwestiynau sy'n dod i'r amlwg gyda chi ychydig cyn yr arolygiad ar y safle. Bydd yr ACof yn trafod y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg yn y cyfarfod briffio cyntaf gyda'r tîm arolygu yn y coleg.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut gallai arolygwyr gynllunio i gasglu tystiolaeth i ymateb i gwestiynau sy'n dod i'r amlwg.

**Enghraifft A**

Mae arolygwyr wedi nodi cwestiwn sy'n dod i'r amlwg sy'n canolbwyntio ar ansawdd rhaglenni sefydlu sy'n helpu dysgwyr i ymgynefino'n gyflym yn y coleg a deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Daeth hwn i'r amlwg o ganlyniad i rai sylwadau beirniadol gan rieni wrth ymateb i ddatganiad yn yr holiadur i rieni ynghylch 'Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yn y coleg'.

O ganlyniad, gallai arolygwyr ddewis:

- siarad â grwpiau o ddysgwyr sy'n newydd/gymharol newydd i'r coleg am eu profiadau
- ceisio barn rhieni/gofalwyr am drefniadau sefydlu yn ystod y cyfarfod â rhieni
- siarad â staff y dosbarth meithrin/derbyn am drefniadau pontio
- archwilio polisi a gweithdrefnau'r coleg ar gyfer sefydlu
- craffu ar dystiolaeth ddogfennol o gysylltiadau ag ysgolion a cholegau eraill, gan gynnwys cysylltiadau bugeiliol a chwricwlaidd

Hefyd, gallai arolygwyr ddefnyddio arolygon fel ffynhonnell ychwanegol o dystiolaeth i ategu barnau'r coleg. Mae enghraifft B yn dangos hyn.

**Enghraifft B**

Yn ei AHW, mae'r coleg wedi gwerthuso bod ei drefniadau asesu dysgu, cofnodi ac adrodd yn gryf iawn. Mae'r dogfennau a ddarperir yn ategu gwerthusiad y coleg ac mae'r ymatebion gan rieni i'r arolwg cyn-arolygiad yn canmol y coleg am y ffyrdd y mae'n sicrhau eu bod yn gwybod pa mor dda y mae eu plentyn yn dod yn ei flaen. Hefyd, mae trafodaethau â dysgwyr yn dangos bod gan ddysgwyr syniad da o'r cynnydd maent yn ei wneud, eu bod yn gwybod beth yw eu targedau dysgu personol a'u bod yn gallu esbonio beth mae angen iddynt ei wneud i wella ymhellach. Yn y sefyllfa hon, gallai'r arolygwyr benderfynu bod yr agwedd hon ar asesu yn dda ac nad oes angen unrhyw weithgarwch arolygu pellach yn y maes hwn o waith y coleg.

## Dogfennau

Bydd rhan olaf yr adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y dogfennau y bydd arolygwyr yn gofyn amdanynt cyn yr arolygiad i'w helpu i lywio'u barnau.

### Dogfennau sydd eu hangen cyn yr arolygiad

Gyda'r Cydlynydd Arolygu (CydAr) y bydd bron eich holl gyswllt cyn yr arolygiad. Bydd y CydAr yn eich ffonio tair wythnos cyn yr arolygiad i roi gwybod i chi beth yw dyddiad yr arolygiad. Yn ystod yr alwad ffôn hon, bydd y CydAr yn rhoi manylion i chi am y tîm arolygu ac yn trafod y trefniadau manwl ar gyfer yr arolygiad. Wedi i chi gael eich hysbysu y bydd arolygiad yn cael ei gynnal, gofynnir i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer yr ystafell arolygu rithwir:

- gwybodaeth gefndir allweddol am y coleg, fel yr hyn sydd wedi'i chynnwys ym mhrosbectws y coleg ac unrhyw newid i natur y coleg ers yr arolygiad diwethaf
- copi o'ch adroddiad hunanasesu a'ch cynllun gwella diweddaraf
- y data diweddaraf am gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr
- cynllun llawn o'r holl weithgareddau a fwriedir yn ystod wythnos yr arolygiad, gan gynnwys amserlenni gwersi ar gyfer pob dosbarth

Os cynhelir yr arolygiad yn gynnar yn ystod y flwyddyn academaidd, cewch eich atgoffa y gallai fod angen samplau o waith dysgwyr o'r flwyddyn flaenorol yn ystod yr arolygiad. Dylech ddarparu'r samplau hyn i arolygwyr yn ystod y rhan o'r arolygiad ar y safle, yn unol â'u cais.

## Crynodeb

Yn yr adran hon, rydych chi wedi darllen am y modd y mae arolygwyr yn barnu medrau, y ffynonellau tystiolaeth y byddant yn eu defnyddio i lunio'u barnau a sut byddant yn adrodd ar fedrau. Hefyd, rydych chi wedi darllen am y modd y gallai arolygwyr nodi cwestiynau sy'n dod i'r amlwg a'r dogfennau y bydd arolygwyr yn gofyn amdanynt cyn yr arolygiad.

Hwyrach y byddwch eisiau ystyried sut y gall y wybodaeth hon gael ei rhannu gyda rheolwyr a staff fel eu bod yn ennill dealltwriaeth o'r broses arolygu.

## Rhan 2: Yn ystod yr arolygiad

Yn **Adran A**, byddwch yn ymgyfarwyddo â'ch rôl yn ystod yr arolygiad

Mae **Adran B** yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn ystod y rhan o'r arolygiad ar y safle

Mae **Adran C** yn esbonio sut mae tystiolaeth ddogfennol y mae'r tîm arolygu'n gofyn amdani yn ystod yr arolygiad yn cefnogi unrhyw gwestiynau sy'n dod i'r amlwg

Mae **Adran D** yn egluro prosesau sicrhau ansawdd yr arolygiaeth

Mae **Adran E** yn cynnwys cyfres o gwestiynau cyffredin

### Adran A: Rôl a chyfrifoldebau

Bydd yr adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn ystod yr arolygiad.

**Yn ystod** yr arolygiad, dylech:

- gysylltu â'r Arolygydd Cofnodol am drefniadau gweinyddol
- ymateb i geisiadau'r tîm am wybodaeth ychwanegol
- cynorthwyo â datrys unrhyw broblemau sy'n codi
- cyfrannu at drafodaethau am nodweddion rhagorol ac anfoddhaol mewn cyfarfodydd tîm
- darparu tystiolaeth ychwanegol yn rhagweithiol yn dilyn cyfarfodydd tîm neu graffu ar waith dysgwyr
- peidio â chymryd unrhyw ran weithredol pan fydd y tîm yn llunio barnau a, lle bo'n briodol, gofyn i'r tîm arolygu egluro'i farnau

#### Crynodeb

Yn yr adran hon, rydych chi wedi darllen am eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn ystod yr arolygiad. Bydd yn ddefnyddiol rhannu hyn â rheolwyr a staff fel bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r hyn y bydd disgwyl i chi ei wneud.

### Adran B: Taith trwy gyfnod yr arolygiad

Bydd yr adran hon yn eich galluogi i gael gwell dealltwriaeth:

- o'r hyn y bydd y tîm arolygu'n ei wneud yn ystod yr arolygiad
- o'ch rôl mewn cyfarfodydd tîm

Mae Atodiad 1 yn darparu model posibl o'r ffordd y gallai arolygwyr ddefnyddio'u hamser yn ystod yr arolygiad. Bydd yn ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon gyda rheolwyr, staff ac aelodau o gyrff goruchwylio cyn yr arolygiad.

Nodwedd bwysig iawn o'r broses arolygu yw'r **cyfarfodydd tîm**. Fel enwebai a rhan o'r tîm arolygu, dylech fynychu pob cyfarfod tîm, gan gynnwys y cyfarfod tîm cyn-arolygiad. Mae enghraifft isod o agenda ar gyfer y cyfarfod tîm cyn-arolygiad. Mae'n syniad da ymgyfarwyddo â'r agenda hon ymlaen llaw, oherwydd gellir gofyn i chi am eich cyngor ynglŷn â ble gall y tîm gael tystiolaeth benodol, neu'r person gorau i'w holi am gwestiwn penodol sy'n dod i'r amlwg.

### Agenda enghreifftiol ar gyfer cyfarfod tîm cyn-arolygiad

Croeso a chyflwyniadau

- trefniadau ymarferol, materion iechyd a diogelwch, a threfniadau diogelu
- lle y bo'n briodol, materion/gweithgareddau penodol yn ystod yr wythnos a fydd yn effeithio ar y rhaglen arolygu
- cyfrifoldebau tîm – neilltuo Meysydd Arolygu ac ysgrifennu adrannau o'r adroddiad a'r dystiolaeth ategol o fewn y ffurflenni barnau arolygu
- cwestiynau sy'n dod i'r amlwg – rhagdybiaethau, gan gynnwys cyfeiriadau at yr AHW
- materion sy'n codi o'r arolygon cyn-arolygiad
- y trefniadau ar gyfer cyfarfod â dysgwyr
- cyfweliadau â staff a chadeirydd y llywodraethwyr
- nodi samplau o waith dysgwyr i graffu arnynt
- cofnodi tystiolaeth, gan gynnwys defnyddio ffurflenni barnau a'r trefniadau ar gyfer coladu canfyddiadau'r tîm
- y trefniadau ar gyfer y cyfarfod â rhieni
- amserlen a threfniadau ar gyfer cyfarfodydd tîm ar ddiwedd y diwrnod coleg ar gyfer gweddill yr arolygiad
- y trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl/rhoi adborth ar ddiwrnod olaf yr arolygiad
- unrhyw fater arall

Mae'n bwysig eich bod, fel yr enwebai, yn rhoi ystyriaeth briodol i brotocol yr enwebai. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cyfarfodydd tîm lle bydd trafodaethau'n cwmpasu cryfderau a gwendidau'r sefydliad. Mae enwebai da wedi paratoi'n dda, â gwybodaeth dda ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at drafodaethau'r tîm. Peidiwch â bod ofn gofyn am eglurhad os bydd rhywbeth nad ydych yn ei ddeall. Wedi'r cyfan, chi yw'r un sy'n debygol o fod yn allweddol wrth helpu symud y coleg ymlaen ar ôl yr arolygiad, felly mae'n bwysig eich bod yn gwybod pam mae pethau'n cael eu dweud. Bydd y canllaw adolygu ar-lein yn rhoi enghreifftiau i chi o sut i baratoi ar gyfer eich rôl mewn cyfarfodydd tîm.

### Crynodeb

Yn yr adran hon, rydych chi wedi darllen am wythnos yr arolygiad. Efallai yr hoffech ystyried sut gellir rhannu'r wybodaeth hon â rheolwyr a staff fel eu bod yn cael dealltwriaeth well o'r broses arolygu.

## Adran C: Dogfennau sydd eu hangen yn ystod yr arolygiad

Bydd yr adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am ystod y dogfennau y gallai arolygwyr ofyn amdanynt i'w helpu i farnu gwaith y darparwr yn gysylltiedig â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Sylwer, bydd arolygwyr yn samplu'r dystiolaeth a ddarperir gan y coleg wrth iddynt fynd ati i gwmpasu gofynion y Fframwaith Arolygu Cyffredin ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r enghreifftiau canlynol yn canolbwyntio ar y mathau o dystiolaeth ddogfennol y gallai arolygwyr ofyn amdanynt i fynd ar drywydd cwestiwn sy'n dod i'r amlwg. Yn ogystal â thystiolaeth ddogfennol, gallent arsylwi sut mae polisïau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol a cheisio barn dysgwyr, rhieni a staff.

**Enghraifft A**

Yng ngholeg A, mae arolygwyr wedi nodi cwestiwn sy'n dod i'r amlwg sy'n canolbwyntio ar ba mor dda y mae pynciau yn rhoi cyd-destunau ar gyfer datblygu ac atgyfnerthu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh dysgwyr. Gallai arolygwyr ddewis archwilio:

- polisïau llythrennedd, rhifedd a TGCh y coleg cyfan
- cynllunio'r cwricwlwm i weld pa mor dda y mae profiadau dysgwyr yn effeithio ar ddatblygiad eu medrau a chymhwyso'u medrau
- gwybodaeth am fonitro medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dysgwyr, cynlluniau'r cwricwlwm a pholisïau
- cynllun gwella'r coleg

**Enghraifft B**

Yng ngholeg B, mae arolygwyr wedi nodi trywydd ymholi sy'n canolbwyntio ar ba mor dda y mae'r ddarpariaeth breswyl yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Gallai arolygwyr ddewis archwilio:

- gwybodaeth sy'n dangos pa mor dda mae'r coleg yn annog rhieni/gofalwyr a rhieni corfforaethol i ymwneud yn weithgar â'u plant
- dogfennau sy'n dangos graddau'r cysylltiad rhwng y coleg a'r preswylfan
- tystiolaeth o raglenni, er enghraifft i hybu annibyniaeth neu fedrau hunanofal neu fedrau corfforol
- dogfennau sy'n dangos y ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod yr holl staff allweddol yn gwybod am gynnwys datganiadau a chynlluniau gofal dysgwyr, yn ogystal â thystiolaeth o'r trefniadau i staff gyfrannu at unrhyw adolygiad a gynhelir

### Crynodeb

Yn yr adran hon, rydych chi wedi darllen am y modd y gellir gofyn am dystiolaeth ddogfennol er mwyn cefnogi cwestiwn sy'n dod i'r amlwg. Bydd yn ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon â rheolwyr a staff fel bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r broses arolygu.

## Adran D: Prosesau sicrhau ansawdd yr arolygiaeth

Bydd yr adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y modd y mae'r arolygiaeth yn sicrhau ansawdd arolygiadau.

Bydd pob arolygiad yn cael ei arwain gan Estyn, h.y. bydd yr ACof yn aelod o'r arolygiaeth.

Bydd canran o golegau yn cael ymweliad gan AEM am ddiwrnod i fonitro a gwerthuso ansawdd yr arolygiad. Bydd timau arolygu yn cael 24 awr o rybudd am ymweliad o'r fath. Ni fydd yr arolygydd monitro yn cymryd rhan mewn arsylwadau ystafell ddosbarth, ond gallai fynychu unrhyw gyfarfodydd a drefnir yn ystod yr arolygiad.

Bydd yr arolygiaeth yn cymedroli ac yn dilysu canfyddiadau pob adroddiad arolygu cyn ei gyhoeddi ar ei gwefan. Hefyd, bydd yn gwerthuso ansawdd pob adroddiad arolygu. Mae'r broses ddilysu a chymedroli yn cynnwys ystyried canfyddiadau a barnau'r adroddiad, craffu ar y dystiolaeth sy'n cefnogi'r barnau, herio barnau a chanfyddiadau, lle bo'n briodol, a myfyrio ar y canfyddiadau mewn perthynas â deilliannau arolygiadau blaenorol o fewn y sector.

Mae monitro arolygiadau ac adroddiadau arolygu yn galluogi'r arolygiaeth i:

- asesu gwaith arolygwyr tîm ar ymweliadau arolygu, yn ogystal â gwaith yr arolygydd cofnodol
- gwirio pa mor dda y mae'r enwebai yn deall ei rôl a phrotocol yr enwebai
- sicrhau bod pob arolygydd yn cydymffurfio â gofynion y fframwaith ac arweiniad arolygu perthnasol
- nodi unrhyw faterion yn ymwneud â chysondeb arfer o un arolygiad i'r llall
- herio'r tîm arolygu
- defnyddio'r wybodaeth i bennu faint o waith fydd yn y dyfodol i arolygwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr arolygiaeth
- defnyddio'r holl wybodaeth am sicrhau ansawdd i lywio hyfforddiant ac arweiniad pellach

### Crynodeb

Yn yr adran hon, rydych chi wedi darllen am y modd y mae'r arolygiaeth yn monitro ansawdd gwaith ei harolygwyr ei hun ac arolygwyr dan gontract. Bydd yn ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon gyda staff, rheolwyr ac aelodau o gyrff goruchwylio fel eu bod wedi'u paratoi'n dda os sicrheir ansawdd yr arolygiad.

## Adran E: Cwestiynau cyffredin

Bydd yr adran hon yn rhoi manylion i chi am ychydig o gwestiynau cyffredin ac atebion. Gallai fod yn ddefnyddiol i chi ddarllen drwy'r rhain cyn parhau i ddarllen y llawlyfr.

### Cwestiynau cyffredin

#### 1 A oes rhaid i ni newid ein hamserlenni os bydd yr ACof yn gofyn i ni wneud?

Mae'r arolygiaeth yn awyddus i golegau weithredu yn ôl yr arfer yn ystod arolygiad. Y peth gorau yw i athrawon a dysgwyr ymgymryd â'u gweithgareddau arferol ar yr adegau arferol. Felly, ni ddylai'r ACof ofyn fel arfer am unrhyw newidiadau i amserlen arferol y coleg.

**2 Os ydw i'n aelod o'r tîm, a alla' i fynd i'r cyfarfod â rhieni?**

A chithau'n enwebai, ni allwch fynd i'r cyfarfod â rhieni oni bai eich bod chi'n rhiant. Os ydych chi'n rhiant, gallwch fynd i'r cyfarfod â rhieni fel rhiant a dylech gyfrannu at y cyfarfod yn y rôl honno.

**3 Oherwydd fy mod i'n arwain coleg bach iawn, mae gennyf ymrwymiadau addysgu sylweddol a hoffwn fynychu'r cyfarfod tîm y peth cyntaf yn y bore. A alla' i ofyn i'r ACof beidio â'm harsylwi'n addysgu tan yn ddiweddarach yn ystod y dydd?**

Mae'n bwysig eich bod yn trafod y materion hyn gyda'r ACof. Mae arolygwyr cofnodol yn ystyriol mewn amgylchiadau o'r fath a byddent fel arfer yn ceisio darparu ar gyfer y cais hwn. Mae ACof yn cydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu arweinwyr a rheolwyr mewn lleoliadau bach iawn.

**4 Os ydw i o'r farn nad yw'r tîm wedi gweld rhywbeth pwysig, beth ddylwn i ei wneud?**

Mae'n bwysig iawn eich bod yn tynnu sylw'r tîm at unrhyw dystiolaeth arwyddocaol. Nid oes rhaid i hyn fod yn ymosodgar, ond dylech sicrhau bod yr ACof yn gwybod yr arwyddocâd rydych yn ei roi i'r dystiolaeth benodol hon.

**5 Os bydd gennym rywbeth arbennig yn digwydd yn y coleg yn ystod yr arolygiad ar y safle, a ddylwn i roi gwybod i'r arolygydd arweiniol?**

Wrth gwrs, a dylech wneud yn siŵr eich bod yn sôn am hyn wrth y Cydlynydd Arolygu pan fydd yn cyhoeddi'r arolygiad. Hefyd, tynnwch sylw ato yn yr amserlenni y byddwch yn eu hanfon at y CydAr neu'r contractwr cyn yr arolygiad. Er na all arolygwyr sicrhau y byddant yn gallu neilltuo amser i'r digwyddiad, bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud.

**6 Os bydd y tîm yn sôn nad ydynt wedi gweld dysgwyr yn defnyddio unrhyw TGCh mewn sesiynau, a alla' i fynd a dweud wrth y staff am hyn?**

Na allwch. Mae trafodaethau'r tîm yn gyfrinachol. Fodd bynnag, hwyrach y byddwch eisiau sicrhau bod y tîm wedi derbyn unrhyw dystiolaeth arwyddocaol yn ymwneud â defnydd dysgwyr o TGCh yn y dosbarth, os yw ar gael.

**7 Os byddaf yn anghytuno â'r hyn y mae'r tîm yn ei ddweud yn y cyfarfod am fedrau neu feysydd arolygu, beth alla' i ei wneud?**

Cewch ddwyn unrhyw wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol i sylw'r tîm. Er y byddant yn ystyried y wybodaeth hon, mae'n bosibl na chaiff ei hadlewyrchu mewn newid i'r farn. Bydd tîm yn llunio'i farn ei hun.

**8 A fydd effaith ar y farn ar gyfer maes arolygu os na fydd y gofynion statudol ar waith gennyf?**

Efallai. Er enghraifft, os nad oes polisi â gweithdrefnau diogelu priodol ar waith gennych, mae'n bosibl mai 'anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys' fydd y farn ar gyfer maes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## 9 A ellir gofyn i mi adael cyfarfod tîm?

Gall fod yn heriol gwrando ar dîm arolygu yn trafod barnau am eich coleg, yn enwedig lle nad yw'r rheiny'n cyd-fynd â'ch safbwyntiau eich hun, ac efallai y byddwch yn teimlo'n aml fod angen torri ar draws. Fodd bynnag, mae angen i chi gofio nad rôl yr enwebai yw amddiffyn y coleg, ond cyfeirio'r tîm at dystiolaeth berthnasol a hwyluso'r arolygiad. Anaml y bydd yr ACof yn gofyn i enwebai adael cyfarfod tîm. Fodd bynnag, os ydych yn ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu ar yr arolygiad, fel herio barnau'r tîm yn gyson, yna gallai'r ACof ofyn i chi adael y cyfarfod. Cyn i hyn ddigwydd, bydd yr ACof yn eich atgoffa am y protocol a gytunwyd, ac yn esbonio eich bod yn camu y tu allan i delerau'r cytundeb.

## 10 A oes rhaid i bob dysgwr yn y coleg lenwi arolwg y dysgwr?

Nac oes. Bydd nifer y dysgwyr sy'n cael y cyfle i lenwi arolwg yn dibynnu ar faint y coleg. Bydd y CydAr yn trafod trefniadau'r arolwg gyda chi.

## 11 A alla' i ddewis y dysgwyr i'r tîm arolygu gyfarfod â nhw?

Na allwch. Bydd y tîm yn dewis dysgwyr o'r rhestri a ddarparwch er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer gofynion y Fframwaith Arolygu Cyffredin a/neu i ateb cwestiynau sy'n dod i'r amlwg. Yn ymarferol, bydd yr ACof eisiau trafod hyn gyda chi i gyfrif am anghenion unigol dysgwyr, yn enwedig unrhyw anawsterau cyfathrebu posibl sydd ganddynt.

## 12 A oes angen i mi sicrhau bod gan y tîm ddewis cynrychiolaidd o waith dysgwyr o bob grŵp?

Mae'n debygol y bydd y tîm arolygu yn gofyn am sampl o waith dysgwyr fel sampl cyfeirio yn ystod yr arolygiad, er enghraifft i ddarparu tystiolaeth yn ymwneud â chwestiwn sy'n dod i'r amlwg. Bydd yr ACof yn trafod union natur y sampl pan fydd yn cysylltu â chi cyn yr arolygiad.

## 13 A fydd yr arolygwyr yn cyfarfod â phob un o'm staff?

Eto, bydd hyn yn dibynnu ar y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg ac i ba raddau y mae'r tîm o'r farn bod angen iddo archwilio materion ymhellach gyda'r staff. Mewn coleg mawr, mae'n annhebygol y bydd y tîm arolygu yn cyfarfod â'r holl staff. Maent yn fwy tebygol o lawer o ddewis sampl bychan i gyfarfod â nhw. Mewn colegau llai, mae'n debygol y byddant yn cyfarfod â'r holl staff ar ryw adeg yn ystod y broses arolygu.

## 14 Fel enwebai, a alla' i weld y Ffurflenni Barnau a lenwir gan aelodau'r tîm arolygu?

Na allwch, mae'r rhain yn gyfrinachol i'r tîm arolygu.

## Rhan 3: Ar ôl yr arolygiad

Mae'r adran hon yn adolygu'n fras rôl yr enwebai ar ôl cwblhau'r arolygiad ar y safle. Ar ôl yr arolygiad, dylech chi:

- fynychu'r cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad
- cyfrannu at wirio cywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft
- cymryd rhan lawn mewn diweddaru'r cynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad

Bydd y canllaw arolygu ar-lein yn archwilio rhai materion yn ymwneud â'ch rôl ar ôl yr arolygiad.

Rydych chi bellach wedi darllen trwy'r llawlyfr, a gallwch ddechrau paratoi ar gyfer eich arolygiad. Gall fod yn ddefnyddiol i chi nawr ddarllen arweiniad Estyn ar baratoi ar gyfer arolygiad. Ar y wefan, mae amrywiaeth o ddogfennau a allai fod yn ddefnyddiol, gan gynnwys arweiniad atodol ar amrywiaeth o faterion arolygu ac arweiniad ar drefniadau gweithgarwch dilynol.

## Rhan 4: Cwblhau'r canllaw adolygu ar-lein

Pan gewch chi ddyddiad eich arolygiad, rhaid i chi gwblhau'r canllaw adolygu ar-lein. Dylai'r canllaw adolygu gymryd tuag awr i'w gwblhau a bwriedir iddo atgyfnerthu'ch dealltwriaeth o'ch rôl fel enwebai'r coleg. Mae'r canllaw adolygu'n cynnwys cyfres o weithgareddau i archwilio'ch dealltwriaeth o'ch rôl a'r fframwaith arolygu newydd. Mae atebion yn cyd-fynd â'r holl weithgareddau, fel y gallwch farnu pa mor barod yr ydych i ymgymryd â rôl yr enwebai. Ar ôl cwblhau'r canllaw adolygu, cyhoeddir tystysgrif i chi'n awtomatig. Cadwch hon yn ddiogel oherwydd bydd yr ACof yn gofyn am gael ei gweld pan fydd yn cyrraedd y coleg.

## Atodiad 1: Taith trwy wythnos yr arolygiad

**Prynhawn Llun**

Fel arfer, defnyddir y bore Llun i deithio. Bydd yr arolygydd cofnodol, yr arolygydd/arolygwyr tîm a'r arolygydd cymheiriaid fel rheol yn cyrraedd y coleg tua 12-12.30 ddydd Llun ar gyfer **cyfarfod tîm,** y bydd yr enwebai yn ei fynychu hefyd.

Yn ystod y cyfarfod, bydd yr arolygydd cofnodol yn trafod adroddiad hunanasesu'r coleg ac unrhyw gwestiynau sy'n dod i'r amlwg. Hefyd, bydd yr arolygydd cofnodol yn esbonio sut bydd y tîm yn casglu tystiolaeth i gefnogi'r gofynion arolygu cyffredin ac unrhyw gwestiynau a allai ddod i'r amlwg yn ystod yr arolygiad ar y safle. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio cyfweliadau gyda dysgwyr ac athrawon, a theithiau dysgu ac arsylwadau gwersi, am o leiaf ddiwrnod llawn cyntaf yr arolygiad. **Ni fydd** manylion arsylwadau gwersi yn cael eu rhannu gyda'r coleg. Gall arolygwyr ddechrau gweithgarwch arolygu, er enghraifft teithiau dysgu, o amser cinio'r diwrnod cyntaf, sef amser cinio dydd Llun fel arfer, os bydd angen.

Gyda'r nos, bydd yr arolygydd cofnodol a'r arolygydd tîm yn cyfarfod â rhieni/gofalwyr. Mae'n debygol y bydd yr arolygydd cofnodol hefyd yn trefnu cyfarfod â'r perchennog ar ddiwedd y cyfarfod a chyn y cyfarfod â rhieni/gofalwyr.

**Gweithgarwch arolygu dydd Mawrth i ddydd Iau – arolygiad ar y safle ac adrodd canfyddiadau**

Bydd nifer y diwrnodau a dreulir mewn gwirionedd yn arolygu'r coleg yn dibynnu ar nifer ei ddysgwyr a natur ei ddarpariaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y tîm yn cynnal arsylwadau ystafelloedd dosbarth, teithiau dysgu, cyfweliadau â dysgwyr, adolygiadau o waith dysgwyr a thystiolaeth ddogfennol, a chyfarfodydd â staff perthnasol.

Bob nos, bydd cyfarfod tîm lle y trafodir agweddau ar yr arolygiad. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i chi gyfrannu at drafodaethau'r tîm, ond ni allwch chwarae rhan weithgar ym marnau'r tîm. Bydd y ffocws yn y cyfarfodydd ar bwyso a mesur y cryfderau a'r meysydd i'w gwella o dan feysydd arolygu. Hefyd, bydd trafodaethau gyda chi yn ddyddiol i gytuno ar unrhyw drefniadau newydd, trafod materion o bryder, egluro materion arolygu a thrafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Ar ddiwedd yr arolygiad ar y safle, rhoddir adborth i'r pennaeth ac i staff uwch, yn ogystal ag i'r perchennog, lle y bo'n briodol.

**Trosolwg posibl o drefniadaeth arolygiad mewn coleg annibynnol arbenigol**

| Diwrnod | Gweithgaredd |
|---|---|
| Bore Llun | • y tîm arolygu'n teithio i'r coleg |
| Prynhawn Llun | • cyfarfod y tîm arolygu, gyda'r enwebai yn ei fynychu<br>• cyfarfod â'r perchennog<br>• cyfarfod â rhieni/gofalwyr<br>• gweithgarwch arolygu |

| | |
|---|---|
| Bore a phrynhawn Mawrth | • gweithgareddau arolygu – teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, cyfweliadau â dysgwyr a staff, craffu ar ddogfennau a gwaith dysgwyr<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai yn ei fynychu |
| Bore a phrynhawn Mercher | • gweithgareddau arolygu – teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, cyfweliadau â dysgwyr a staff, a chraffu ar ddogfennau a gwaith dysgwyr<br>• cyfarfod tîm ar ddiwedd y dydd, gyda'r enwebai yn ei fynychu |
| Bore Iau | • gweithgareddau arolygu, os bydd angen<br>• cyfarfod y tîm arolygu i gytuno ar ganfyddiadau a'u cymedroli |
| Prynhawn Iau | • y tîm arolygu yn adrodd barnau a chanfyddiadau yn ôl i'r uwch staff/perchennog ac yn gadael y coleg |